

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 13eg Mai 2019 ar ol y Cyfarfod Blynyddol

Presennol: Gadeirydd Steve Lewis, Is Gadeirydd Robert Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw,
Elwyn Evans, Miriam Webb, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Yddiheuriad: H.E. Thompson, Wendy Whitby, (sâl)

Datgan Diddordeb:

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. Derbyniwyd cofnodion Ebrill a llofnodwyd gan y Cadeirydd Steve Lewis

2. Cae Chwarae: Pasiwyd i dalu am dorri gwair, a nodwyd bod y cae yn daclus iawn. Adroddod y Clerc bod cais i Calor am grant wedi ei dderbyn ond dibynem am pleidleisiau o'r cyhoedd i weld os down i'r brig, i dderbyn y cam olaf. Pasiwyd i ddiolch i Sue Wolf am gefnogi y clerc i baratoi y cais ar lein. Llongyfarchiadau i lwyddiant y Ras Hwyaidd.
3. Mynwentydd: Pasiwyd i dalu am dorri gwair y Llan. Gwaith taclus iawn. Pasiwyd i dalu am wagu bin ysbwriel. Trafodwyd yr angladd mewn llaw. Nid oedd cofnod o brynnu bedd i law, ond mi oedd lle wrth y sietyn yn ymyl teulu. Diolch i'r Cyng Robert Jones am ei gydweithrediad. Pasiwyd i hyn fynd ymlaen a chodi pris fel y trafodwyd. Pasiwyd holi hogiau torri gwair, ei dorri at yr angladd ac hefyd rhan o'r sietyn.
4. Llwybrau: Cyng Robert Jones yn cysylltu a'r adran llwybrau.
5. Toiledau Cyhoeddus: Adroddodd Cyng. Miriam Webb eu bod yn daclus ond yn hên.
6. Adroddiad: Cyng. Steve Lewis Arwyddion i gymeryd 6 – 8 wythnos. Hefyd adroddodd bod y Difibulator yn agosau at ddiwedd ei oes. Trafodwyd ffyrdd i fod yn barod yn ariannol a chyfrifol.
7. Cyng. Gwynedd: Adroddodd bod dau Cynghorwr o Gwynedd eisiau dod lawr i gael sgwrs, a oedd syniadau, - ffordd gefn Llyn Mwyngil, ffordd yn rhoi, arafu gor yrru yn Abergynolwyn, ail gylchu (llanast ar ol), toiledau, cwyn bod 70 o geir wedi parcio ar y ffordd ger Minffordd- Gwyl Banc. Diolch Cyng Beth Lawton.
8. Ciosgs; Caerberllan ddim yn gweithio. Cyflwr gwael, pasio holi i'r torrwr gwair eu tocio a glanhau.
9. Rheoli Data: Clerc wedi cofrestru am gwrs ond cafodd ei canslo. Trio ein gorau i beidio enwi neb
10. Y Ganolfan: Pasiwyd i dalu yr anfoneb blynyddol
11. Cafwyd adroddiad problem cerbydau mawr yn dosbarthu nwyddau i'r ardal côd post LL36 9AJ. Dilyn sat nav a defnyddio mynedfa ger y Llwyn a thrafeilio y ffordd gefn Llyn Mwyngil. Mynd yn sound, method dod oddiyno, methu troi'n ol ayb. Pasiwyd i ddanfôn at Cyngor Gwynedd a holi am arwydd pwrpasol. Hefyd problem arall, parseli yn cael eu gadael yn Ty Pridd, lle nad oes neb yn byw. Nodwyd yn "Major Problem"

12. Taliadau:	Owain Williams mynwent/cae	£680.00	siec 961
	Cyngor Gwynedd bin	80.00	962
	Y Ganolfan llogi	176.00	963
	J A Owen agor bedd	520.00	964

Cartref Mari Jones:

Dim yw adrodd

Cyfarfod i ben 9.10